



Cynllun Cyflawni Strategol 2025-2029





Cynllun Cyflawni Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Ein Blaenoriaethau	5
Ein Cynllun.....	7
Ein Dull.....	9
Ein Llywodraethu	9
Ein strategaeth galluogi.....	11
Gweithlu a Llesiant	12
Diwylliant	13
Cod moeseg.....	14
Arloesedd, technoleg a data.....	15
Atal	16
Diogelu pobl fregus	16
Cynaliadwyedd	17
Rheolaeth ariannol	17
Atodiadau	19
Canlyniadau'r Prif Gwnstabl	21
Blaenoriaeth 1 - Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr cam-drin domestig a stelcio ac erlid troseddwr yn ddi-baid.....	22
Blaenoriaeth 2 - Gwneud Heddlu Dyfed-Powys yn elyniaethus i'r rhai sy'n delio cyffuriau.....	24
Blaenoriaeth 3 - Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol ac erlid troseddwr yn ddi-baid.	26

Rheoli fersiynau

Wedi'i chyhoeddi ym mis Mawrth 2026, fersiwn wedi'i diweddarau yw'r ddogfen hon o'n Cynllun Cyflawni Strategol 2025-2029.



Cyflwyniad

Mae Dyfed-Powys yn gorchuddio arwynebedd tir dros hanner Cymru, gan gynnwys miliwn hectar o dir amaethyddol, mwy na 350 milltir o arfordir, dros 13, 842 milltir o ffyrdd a dau borthladd mawr.

Mae daearyddiaeth eang yr heddlu yn gosod llawer o heriau, yn pennu blaenoriaethau, yn dod â phroblemau a throseddau unigryw yn ei sgil wrth i ni geisio cyflawni ein cenhadaeth gyffredinol i ddarparu cymunedau mwy diogel ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys.

Mae'r Cynllun Cyflawni Strategol 2025-29 hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i arloesi, ymgysylltu â'r gymuned a chynaliadwydd drwy ganolbwyntio ar arloesi a thechnoleg, arweinyddiaeth foesegol ac effeithiol, gweithlu a llesiant, cynaliadwydd, ac anghenion esblygol ein cymunedau.

Datblygwyd ein cynllun fel rhan o'n cylch cynllunio strategol a sicrwydd. Datblygwyd y dull hwn er mwyn sicrhau bod canlyniadau strategol a blaenoriaethau'r heddlu yn alinio, ac fe'i defnyddir i ddarparu'r dystiolaeth sy'n cefnogi asesiad parhaus ein heffeithiolrwydd a'u bod yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau a'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Wrth ddatblygu'r cynllun cyflawni hwn rydym wedi ystyried adborth a gafwyd drwy ymgynghoriad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ogystal â'n harolygon dioddefwyr.

Mae blynyddoedd lawer o galedi a heriau wedi effeithio ar yr heddlu ac yn parhau i wneud hynny. Mae ein cyfrifoldebau plismona craidd yn cynnwys gwaith adweithiol a rhagweithiol, gan gynnwys ymateb i'r cyhoedd ac ymchwilio i droseddau sydd eisoes wedi digwydd a'u datrys, a'n hymdrechion i atal troseddau rhag digwydd yn y lle cyntaf.



Cynllun Cyflawni Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029

Er mwyn ateb yr heriau hyn mae'r heddlu wedi ymrwymo i wella, a gwnawn hyn drwy'r cylch cynllunio strategol a sicrwydd i sicrhau ein bod yn adolygu ein model gweithredu yn barhaus i fodloni ein gofynion newidiol.

Mae tryloywder ac atebolrwydd wedi'u gwreiddio'n llawn yn y broses cylch cynllunio strategol a sicrwydd, sy'n dwyn ynghyd y ffactorau a fydd yn galluogi ein llwyddiant ac yn dangos y meysydd y bydd yr heddlu yn canolbwyntio arnynt, ynghyd â'n blaenoriaethau i ateb heriau heddiw a'r dyfodol.





Ein Blaenoriaethau





Cynllun Cyflawni Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029

Ein Blaenoriaethau

Mae ein cynllun cyflawni strategol yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu 2025-2029.

Blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer plismona a throseddu yw:

Blaenoriaeth 1: Cefnogi dioddefwyr ac atal erledigaeth.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dioddefwr yn cael ei gydnabod, ei ddiogelu, ei gefnogi, a'i fod yn cael gwasanaeth sydd wedi'i deilwra i'w anghenion unigol.

Blaenoriaeth 2: Cefnogi cymunedau diogel trwy atal niwed.

Rwyf wedi ymrwymo i atal niwed i unigolion a chymunedau a achosir gan drosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bregusrwydd drwy fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi niwed.

Blaenoriaeth 3: Cefnogi system gyfiawnder mwy effeithiol.

Rwyf wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i fynd i'r afael â'r heriau a wynebwr gan ein cymunedau, drwy ddylanwadu ac eirioli dros newid a gwella'r profiad i ddioddefwyr a thystion.

Gweledigaeth gyffredinol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025-29 yw gwella ymddiriedaeth a hyder yn Heddlu Dyfed-Powys a'n system cyfiawnder troseddol.



Ein Cynllun





Cynllun Cyflawni Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029

Ein Cynllun

Mae ein cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf sy'n weladwy ac yn hygyrch, bod yno pan fydd ein hangen ar y cyhoedd, a gweithredu gyda thegwch a pharch ym mhopeth a wnawn.

Ein blaenoriaethau:

Blaenoriaeth 1 - Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr cam-drin domestig a stelcio ac erlid troseddwy'r yn ddi-baid.

Rydym yn gwrthod derbyn ei bod yn anochel y bydd unrhyw un yn ein cymdeithas yn dioddef cam-drin domestig neu stelcio. Mae goroeswyr a dioddefwyr, yn enwedig menywod, plant a phobl hŷn, yn aml yn agored i drais dro ar ôl tro. Byddwn yn parhau i fod yn dosturiol a sicrhau dulliau sy'n ystyriol o drawma i amddiffyn dioddefwyr a lleihau aildroseddu.

Blaenoriaeth 2 - Gwneud Heddlu Dyfed-Powys yn elyniaethus i'r rhai sy'n delio cyffuriau.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ddileu rhwydweithiau troseddau trefnedig a brwydro yn erbyn troseddau cyffuriau trwy ymgyrchoedd a arweinir gan gyfrin wybodaeth. Rydym yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, partneriaid, heddluoedd cyfagos, ac unedau troseddau trefnedig rhanbarthol, gan chwarae rhan allweddol ar y cyd wrth fynd i'r afael â sianeli dosbarthu cyffuriau a chamfanteisio. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu dargyfeirio a chymorth er mwyn lleihau'r galw am gyffuriau, gan leihau atyniad y cyflenwad yn ein cymunedau.



Blaenoriaeth 3 - Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol, ac erlid troseddwr yn ddi-baid.

Wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr troseddau, yn enwedig y rhai yr effeithir arnynt gan drais difrifol, cam-drin domestig, a thrais rhywiol, yn cael cymorth personol, tosturiol ac amserol.





Cynllun Cyflawni Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029

Ein Dull

Y cylch cynllunio strategol a sicrwydd yw proses cynllunio busnes blynyddol Dyfed-Powys, sy'n gwerthuso'r galw presennol a'r galw a ragwelir yn erbyn adnoddau (gweithlu ac asedau eraill) a chostau. Mae hyn yn galluogi gwneud penderfyniadau gwybodus a darparu gwasanaeth effeithiol. Mae deall a blaenoriaethu adnoddau yn erbyn y galw yn sicrhau bod Dyfed-Powys yn gweithredu'n effeithlon ac effeithiol i wasanaethu'r gymuned, gan feithrin gwelliant parhaus a nodi meysydd ar gyfer gwella effeithlonrwydd.

Mae'r cylch cynllunio a sicrwydd strategol yn alinio blaenoriaethau'r heddlu, gan gynnwys y rhai a osodwyd gan y Prif Gwnstabl, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ynghyd â'r Asesiad Strategol, a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, nodau perfformiad, y Model Gweithredu, a'r Cynllun Gweithlu Strategol. Wrth wraidd y cylch cynllunio a sicrwydd strategol mae Datganiad Rheoli'r Heddlu, sy'n adlewyrchu'r elfennau integredig hyn.

Ein Llywodraethu

Mae gan ein heddlu strwythur llywodraethu perfformiad cadarn ar waith, a amlinellir yn ein Strategaeth Rheoli Perfformiad yr Heddlu. Mae cyfarfodydd goruchwyllo strategol yn dwyn yr heddlu i gyfrif am ei weithrediadau a'i berfformiad. Mae adroddiadau gan bob adran a swyddogaeth yn cydgyfeirio mewn cyfarfodydd byrddau, gan ffurfio cadwyn dryloyw o atebolrwydd a throsolwg perfformiad.

Islaw'r lefel strategol, mae'n ofynnol i bob adran lunio cynllun cyflawni manwl gyda pherfformiad sy'n benodol i'w maes busnes a gaiff ei ddiweddarau'n rheolaidd gydol y cylch blwyddyn. Mae hwn yn nodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ac yn cyd-fynd â gofynion sy'n cynnwys safonau rhanbarthol a chenedlaethol, y Cynllun Heddlu a Throseddu ac unrhyw argymhellion o arolygon ac archwiliadau.



Cynllun Cyflawni Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029

Mae'r heddlu'n defnyddio system rheoli perfformiad sy'n cyfuno data a gwybodaeth o systemau mewnol ac allanol amrywiol er mwyn llunio adroddiadau tryloyw a chynhwysfawr gan ddefnyddio adnoddau gwybodaeth busnes, Power BI yn bennaf. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth perfformiad allweddol yn cael ei chymhwyso'n gyson ar draws pob maes busnes.





Ein strategaeth alluogi

Ategir ein strategaeth alluogi gan arloesedd, technoleg a ffyrdd newydd o weithio, ac mae'n nodi'r camau gweithredu sy'n seiliedig ar ein blaenoriaethau ac a gaiff eu cefnogi gan ein hamcanion strategol



Gweithlu a Llesiant

Mae ein strategaeth Pobl, Diwylliant a Moeseg yn amlinellu'r themâu allweddol a fydd yn cefnogi cyflawni ein huchelgais ar gyfer ein pobl, gan sicrhau ein bod yn barod i fynd i'r afael â'r heriau allanol yr ydym yn eu hwynebu nawr ac yn y blynyddoedd i ddod.

- Mae llesiant a datblygiad ein swyddogion a'n staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.
- Mae llesiant ein staff yn hanfodol i ddarparu plismona o ansawdd uchel.
-

Mae ein hymrwymiad i'n staff yn cynnwys darparu cymorth iechyd meddwl a chydnerthedd proffesiynol. Rydym yn monitro ein cynnydd yn rhagweithiol trwy hunanasesu gan ddefnyddio Fframwaith Llesiant Golau Glas.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu ac yn cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu drwy hyrwyddo a gweithredu arferion recriwtio cynhwysol, datblygiad personol, proffesiynol ac arweinyddiaeth.

Caiff amrywiaeth ei ddathlu ar draws pob rhan o'r heddlu, a byddwn yn annog recriwtio o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg.





Diwylliant

- Byddwn yn hyrwyddo diwylliant o arweinyddiaeth foesegol gan sicrhau bod yr holl swyddogion a staff yn gweithredu ar y lefelau uchaf o onestrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.
- Bydd arweinwyr yn modelu ymddygiad moesegol ac yn meithrin diwylliant cynhwysol a chefnogol.
- Byddwn yn annog diwylliant o ymyrryd mewn sefyllfaoedd niweidiol yn hytrach na chadw'n dawel.

Mae ein Haddewid, a ddatblygwyd gan uwch-arweinwyr yn yr heddlu, yn adlewyrchu'r nodweddion cadarnhaol a ddisgwylir gan bob unigolyn ar draws yr heddlu.



Lle mae ymddygiad yn ddiffygiol, mae ein Haddewid yn annog pawb i herio hyn a byddwn yn annog pob rheolwr llinell i gymryd camau gweithredu cyflym gan uwchgyfeirio i ymchwiliadau ffurfiol pan fo angen.




Cod moeseg

Byddwn yn defnyddio'r egwyddorion plismona moesegol i'n helpu i wneud ein penderfyniadau proffesiynol ac i fyfyrio arnynt. Fel gweithwyr plismona proffesiynol, rydym yn ymrwymo i'r canlynol.

- Dewrder - gwneud, cyfathrebu a bod yn atebol am benderfyniadau, a sefyll yn erbyn unrhyw beth a allai ddwyn anfri ar ein proffesiwn.
- Parch ac empathi - gwrando ar farn pobl eraill, ei hannog a'i deall a cheisio cydnabod ac ymateb i'r heriau corfforol, meddyliol ac emosiynol y gallwn ni a phobl eraill eu hwynebu.
- Gwasanaeth cyhoeddus - gweithio er budd y cyhoedd, meithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, ac ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth rhagorol i'r cyhoedd.

Mae'r cod moeseg yn adlewyrchu heriau plismona modern ac yn amlinellu'r ymddygiadau proffesiynol y gall y cyhoedd ddisgwyl eu gweld gan swyddogion, staff a gwirfoddolwyr.





Arloesedd, technoleg a data

- Mae buddsoddiadau mewn technoleg yn cynnwys darparu profiad didor i ddinasyddion.
- Gwelliannau mewn llwyfannau plismona digidol
- Buddsoddiadau mewn data a gwybodaeth amser real drwy welliannau mewn llwyfannau plismona digidol
- Sicrhau bod pob cais rhyddid gwybodaeth a cheisiadau gwrthrych am wybodaeth yn cael eu gweithredu o fewn yr amseroedd perthnasol.
-

Mae ein cynllun cyflawni strategol yn ystyried y pwysau mewnol ac allanol sy'n wynebu'r heddlu. Mae strategaethau ar waith ac wedi'u halinio â Strategaeth Ddata Genedlaethol y llywodraeth (2020) a phum uchelgais a blaenoriaeth ddigidol allweddol Strategaeth Plismona Digidol Genedlaethol 2025-2030.

Rydym wedi ymrwymo i wella llwyfannau digidol a rhoi offer ar waith sy'n darparu mynediad amser real at ddata a gwybodaeth i swyddogion rheng flaen a staff sy'n cefnogi effeithlonrwydd gweithredol.

Byddwn yn meithrin dadansoddeg rhagfynegol i nodi manau problemus o ran troseddu a dyrannu adnoddau lle mae eu hangen fwyaf, gan leihau troseddu drwy ymyriadau wedi'u targedu.

Byddwn yn canolbwyntio ar droseddu ar-lein i frwydro yn erbyn cyfrwng sy'n allweddol i alluogi troseddau difrifol a threfnedig, gan weithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid eraill i amddiffyn ein cymunedau.



Atal

- Newid diwylliannol: Gwreiddio plismona ataliol fel swyddogaeth graidd yr heddlu i wneud y mwyaf o gyfleoedd i atal niwed i'r cyhoedd a lleihau'r galw am wasanaeth yr heddlu trwy ddulliau datrys problemau.
- Llai o niwed: Mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n ysgogi gormesu a'r gwendidau sy'n gysylltiedig ag erledigaeth yn yr amgylchedd ffisegol a rhithwir.
- Llai o droseddu: Mynd i'r afael â'r achosion a'r cyfleoedd sy'n hwyluso troseddu.
- Llai o alw am wasanaeth yr heddlu trwy ddulliau datrys problemau ar sail tystiolaeth: Lleihau niwed i'r cyhoedd a galw mewnol trwy ddull systematig a chosteffeithiol o ddatrys problemau.

Gan weithio gyda'n gilydd byddwn yn achub ar bob cyfle i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a bregusrwydd. Gan roi ein cymunedau yn gyntaf, byddwn yn lleihau niwed ac yn atal erledigaeth wrth feithrin ymddiriedaeth a hyder. Bydd ein strategaeth atal yn cyflawni yn erbyn y pedwar amcan uchod.

Diogelu pobl fregus

Mae ein Strategaeth Diogelu Pobl yn amlinellu un dull y gellir ei ddefnyddio ar draws meysydd thematig o fygythiad a risg, er mwyn ein helpu i asesu ein galluoedd a'n hymatebion i amddiffyn pobl ac i ddiogelu ein cymunedau.

- Ymrwymiad i ddiogelu: Mae sicrhau diogelwch a llesiant unigolion bregus yn flaenoriaeth graidd.
- Cefnogaeth i ddioddefwyr: Darparu gwasanaethau cymorth cynhwysfawr i ddioddefwyr cam-drin, camfanteisio ac esgeulustod.



Cynllun Cyflawni Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029

Mae ein cynllun cyflawni strategol yn canolbwyntio ar wella amddiffyniad a chymorth i bobl fregus trwy ymyriadau wedi'u targedu ac ymdrechion cydweithredol. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglenni arbenigol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu, treisio ac ymosodiad rhywiol. Ein nod yw meithrin ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaethau trwy sicrhau hygyrchedd ac ymatebolrwydd.

Rydym yn ymgysylltu'n rhagweithiol â chymunedau i ddeall eu hanghenion unigryw, gan roi mesurau ar waith sy'n mynd i'r afael â'r hyn sydd ei angen ar gyfer atal ac ymyrryd. Mae ein hymrwymiad yn ymestyn i hyfforddi ein swyddogion a staff mewn arferion sy'n ystyriol o drawma, gan sicrhau y gallant gefnogi unigolion agored i niwed yn effeithiol. Mae cydweithio ag asiantaethau partner yn hanfodol i'n dull gweithredu, gan alluogi ymateb cydgysylltiedig a chynhwysfawr.

Cynaliadwyedd

- Bod yn glir ynghylch ein hymrwymiad i ddatgarboneiddio a chynaliadwyedd.
- Datblygu arferion busnes cynaliadwy ac effeithlon.

Mae'r heddlu wedi ymrwymo i gynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r Strategaeth Gynaliadwyedd a Datgarboneiddio yn arwain ein dull o ddarparu amgylchedd gwaith diogel ac iach, gan leihau ein gweithrediadau ar yr amgylchedd naturiol a darparu gwerth am arian a gallu parhaus ar draws ein holl benderfyniadau a phrosesau.

Rheolaeth ariannol

- Gwell gwytnwch ariannol.
- Penderfyniadau amserol a gwybodus
- Ysgogi ffyrdd gwell o weithio drwy arbedion effeithlonrwydd



Cynllun Cyflawni Strategol Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029

Cynllunio strategol yw un o'r heriau mwyaf ym maes plismona. Mae'r broses gynllunio strategol a sicrwydd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau plismona mewn modd effeithiol ac effeithlon, gan sicrhau gwerth am arian.

Mae cynllunio ariannol yn cyd-fynd ag amcanion tymor canolig a hirdymor yr heddlu ac wedi'i integreiddio â thybiaethau cynllunio a chaiff rhagolygon eu diweddarau'n rheolaidd i alluogi gwneud penderfyniadau amserol. Rheolir hyn drwy ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r heddlu yn dadansoddi perfformiad yn y gorffennol yn rhagweithiol ac yn herio tuedd optimistaidd i gynhyrchu cynllun ariannol realistig.





Atodiadau



Ein Cynllun

**Ein Blaenoriaeth Strategol –
Mesuriadau Perfformiad**



EIN CYNLLUN

2025-2029

Gweithio fel un tîm i wella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona. Byddwn ni yno pan mae'r cyhoedd ein hangen ac yn gweithredu â thegwch a pharch ym mhob dim a wnawn.

Blaenoriaethau
Comisiynydd
yr Heddlu
a Throseddau

Cefnogi dioddefwyr
ac atal erledigaeth

Cefnogi cymunedau
diogel drwy atal niwed

Cefnogi system
gyfiawnder fwy effeithiol

Ein Blaenoriaethau

Ymateb tosturiol i
ddioddefwyr camdrin
domestig a stelcio ac
erlid troseddwyd
yn ddifflino

Gwneud Heddlu
Dyfed-Powys
yn wrthwynebus
i'r rhai sy'n
gwerthu cyffuriau

Ymateb tosturiol i
ddioddefwyr trais ac
ymosodiadau rhywiol
ac erlid troseddwyd
yn ddifflino

Ein Llw Diwylliant

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni Ein Cynllun

Rydyn ni'n adeiladu un tîm cynhwysol a thosturiol

Rydym yn ymddiried yn ein gilydd i wneud penderfyniadau teg

Rydym yn herio ymddygiad gwael ar bob lefel

Rydym yn anelu i fod yn well yfory

Ein Galluogwyr

Arweinyddiaeth
foesegol a chynhwysol
wedi'i thanategu
gan strategaeth les
gefnogol

Mecanweithiau a
mesurau perfformiad
cadarn

Model gweithredu
effeithiol

Strategaethau
cyfathrebu
gwybodus ac
integredig

Cynllun ariannol
cytrifol sy'n cynnig
gwerth am arian

Strwythur
llywodraethu
clir ac atebol

Cynllun Gweithlu
Strategol dynamig

Cynllun
Cydraddoldeb
Strategol
rhagweithiol

Strategaeth
technoleg ac
arloesedd digidol
sy'n edrych tua'r
dyfodol

Asedau sy'n addas
ar gyfer y diben
gyda ffocws clir ar
gynaliadwyedd

Ein
Gwerthoedd

Rydyn ni'n
gweithredu gyda



Dewrder

Rydyn ni'n trin
pawb â



Pharch ac empathy

Rydyn ni'n ymfalchïo
mewn cyflenwi



Gwasanaeth cyhoeddus



Canlyniadau'r Prif Gwnstabl



Rwyf wedi nodi pum canlyniad, neu nod, yr hoffwn eu cyflawni erbyn diwedd y cynllun hwn - ym mis Mawrth 2029. Roeddynt yn rhan o'r pecyn y cefais fy recriwtio i'w gyflawni fel Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Fodd bynnag, rwyf am ei gwneud yn glir mai fi yn unig sydd i ganolbwyntio arnynt. Credaf yn gryf os yr ydym ni fel heddlu yn canolbwyntio ar y cyd ar gyflawni'r hyn a nodir yn y cynllun cyflawni strategol hwn ac yn gwneud pob ymdrech i'w gyflawni, y bydd y canlyniadau hyn yn dod yn

eu sgil.

Rwyf yn eu rhannu er mwyn bod yn gwbl dryloyw ynglŷn â'r hyn y credaf y gall Heddlu Dyfed-Powys ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf, trwy gydweithio fel un tîm, a thrwy gydweithio â phartneriaid.

Wrth eu rhannu, rwy'n gofyn i chi fy nwyn i gyfrif am eu cyflawni - ac yn yr un modd, byddaf yn herio ac yn canolbwyntio fy nghefnogaeth ar y meysydd lle'r wyf yn gwybod bod angen i'r heddlu wella er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r nodau hyn:

1. Bod wedi cyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu, gwella ymddiriedaeth a hyder.
2. Bod wedi sicrhau gweithlu sy'n ffyniannus a thrugarog, gan fod yn gyflogwr delfrydol.
3. Cael ein cydnabod yn 'rhagorol' gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.
4. Bod yn arweinydd gwasanaeth o ran gwerth am arian a chynhyrchiant.
5. Bod wedi sicrhau partneriaethau sy'n sefydledig, rhagweithiol ac yn gynaliadwy.

Ifan Charles
Prif gwnstabl



Blaenoriaeth 1 - Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr cam-drin domestig a stelcio ac erlid troseddwy yn ddi-baid

Mae Strategaeth Diogelu Pobl Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029 yn adeiladu ar gynlluniau cyflawni strategol ein heddlu, y Strategaeth Fregusrwydd Genedlaethol, strategaethau Llywodraeth Cymru a'r llinynnau allweddol sy'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, gan ganolbwyntio ar sut rydym am geisio diogelu pobl yn ein cymunedau.

Rydym yn gwrthod derbyn ei bod yn anochel y bydd unrhyw un yn ein cymdeithas yn dioddef cam-drin domestig neu stelcio. Mae goroeswyr a dioddefwyr, yn enwedig menywod, plant a phobl hŷn, yn aml yn agored i drais dro ar ôl tro. Byddwn yn parhau i fod yn dosturiol a sicrhau dulliau sy'n ystyriol o drawma i amddiffyn dioddefwyr a lleihau aildroseddu.

Byddwn yn gwella ein gallu i nodi, deall ac amddiffyn plant ac oedolion yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig a stelcio drwy wella sgiliau, polisïau a phartneriaethau.

Paratoi

- Cael proffil problem cam-drin domestig blynyddol i lywio strategaeth atal ac ymgysylltu pwrpasol.
- Nodi cam-drin domestig yn gywir

Ein nod fydd gweithio gydag eraill i fynd i'r afael â gwraidd y problem parthed trais, cam-drin ac esgeulustod a rhwystro'r cylch ymddygiad o fewn teuluoedd a chymunedau.

Atal

- Monitro canlyniadau troseddau cam-drin domestig - sicrhau cywirdeb ac amseroldeb
- Monitro effeithiolrwydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ddyddiol yng nghyd-destun canllawiau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.
- Monitro'n barhaus nifer y ceisiadau a geir am gynlluniau datgelu trais domestig, amseroldeb a chanlyniad y datrysiad.

Byddwn yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr ac sy'n canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel ac yn darparu'r lefel uchaf o wasanaeth i blant, goroeswyr a dioddefwyr gan ddefnyddio pob opsiwn posibl i wneud hynny.



Amddiffyn	• Cydweithio â phartneriaid gan gynnwys y trydydd sector a'r gymuned i atal cam-drin domestig. • Cynyddu atgyfeiriadau amlasiantaeth i raglenni cyflawnwyr. Monitro gwaith rheoli cyflawnwyr risg uchel trwy nifer yr atgyfeiriadau a chyfradd cwblhau rhaglenni cyflawnwyr a threfniadau amlasiantaeth (h.y. (Swyddog) Rheoli Troseddwy yn Integredig, trefniadaeth amlasiantaethol er diogelu'r cyhoedd) ac effaith y rhaglenni hyn ar ymddygiad troseddol. • Asesiadau 'Bygythiad, Niwed, Risg, Ymchwilio, Agored i Niwed, Ymgysylltu, Diogelu' (THRIVES) o ansawdd da • Graddau ymateb priodol wedi'u haseinio • Rheoli system gofnodi digwyddiadau a defnydd o adnoddau yn effeithiol • Neilltuo aelod o staff cywir • Amser ymateb derbyniol • Sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau cofnodi troseddau a digwyddiadau • Nodi ymddygiad / troseddau ymddygiad yn gywir • Monitro atgyfeiriadau a wneir i wasanaethau cymorth • Casglu barn dioddefwyr a nodi a gweithredu ar wella gwasanaethau • Nodi achosion lle mae pobl yn dioddef aml-droseddau yn eu herbyn a sicrhau bod mesurau rhagweithiol yn cael eu hystyried. Canolbwyntio ar yr achosion lle mae pobl yn dioddef aml-droseddau yn eu herbyn a drafodwyd yn flaenorol mewn Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg/ trafodaethau dyddiol.
Byddwn yn ymdrechu yn ddi-flino i fynd i'r afael â throseddwy'r sy'n achosi neu'n hwyluso niwed i blant neu oroeswyr cam-drin domestig a stelcio, ac yn eu targedu.	
Dilyn trywydd	• Ymholiadau'r awr aur yn gwneud cynnydd effeithiol • Camera corff yn cael ei ddefnyddio • Defnyddio pŵer i arestio yn effeithiol • Diogelu cychwynnol effeithiol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd cwblhau asesiad risg cam-drin domestig, stelcio, aflonyddu a nodi llais y plentyn. • Sicrhau bod proses gyson ar waith i fonitro a gyrru ymholiadau yn eu blaen i ddod o hyd i'r rhai a ddrwgdybir • Sicrhau prosesau cyfiawnder troseddol amserol ac o safon, lle mae pob achos yn cael ei ystyried ar gyfer erlyniad a arweinir gan dystiolaeth • Monitro rheolaeth cyflawnwyr risg uchel trwy nifer yr atgyfeiriadau a chyfradd cwblhau rhaglenni cyflawnwyr a threfniadau amlasiantaeth (h.y. (Swyddog) Rheoli Troseddwy yn Integredig, trefniadaeth amlasiantaethol er diogelu'r cyhoedd) ac effaith y rhaglenni hyn ar ymddygiad troseddol



Blaenoriaeth 2 - Gwneud Heddlu Dyfed-Powys yn elyniaethus i'r rhai sy'n delio cyffuriau.

Mae Strategaeth Gyffuriau Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029 yn amlinellu sut y bydd yr heddlu yn darparu ymateb effeithiol, effeithlon, hirdymor a chynaliadwy i'r bygythiad, y risg a'r niwed a achosir gan gyffuriau anghyfreithlon.

Cyflawnir hyn trwy ddileu rhwydweithiau troseddau trefnedig a brwydro yn erbyn troseddau cyffuriau trwy ymgyrchoedd a arweinir gan gyfrin wybodaeth. Rydym yn gweithio ar y cyd ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, partneriaid, heddluoedd cyfagos, ac unedau troseddau trefnedig rhanbarthol, gan chwarae rhan allweddol ar y cyd wrth fynd i'r afael â sianeli dosbarthu cyffuriau a chamfanteisio. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu dargyfeirio a chymorth er mwyn lleihau'r galw am gyffuriau, gan leihau atyniad y cyflenwad yn ein cymunedau.

Amddiffyn oedolion a phobl ifanc fregus trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, gan ddefnyddio dulliau datrys problemau i leihau troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau. Gwella canlyniadau i unigolion, dioddefwyr, a gwella diogelwch cymunedol.

Paratoi

- Meddu ar ddealltwriaeth gywir o'r farchnad gyffuriau, ei bygythiadau a'i gwendidau.
- Darparu addysg a hyfforddiant i'r heddlu, asiantaethau partner a'r cyhoedd mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.
- Arfer ac ymarfer ymatebion i linellau cyffuriau a bygythiadau cyffuriau niwed uchel.
- Nodi a rhannu'r hyn sy'n gweithio a'r gwersi a ddysgwyd.

Atal y niwed sy'n gysylltiedig â throseddau sy'n ymwneud â chyffuriau trwy ymgysylltu â'r holl gymunedau amrywiol yn Nyfed-Powys

Atal

- Darparu ymyrraeth gynnar ac atal i ddargyfeirio unigolion oddi wrth gamddefnyddio cyffuriau neu droseddoldeb cysylltiedig.
- Lleihau'r galw am gyffuriau trwy ddargyfeirio a chynnig triniaeth.
- Atal aildroseddu



Amddiffyn oedolion a phobl ifanc fregus trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, gan ddefnyddio dulliau datrys problemau i leihau troseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau. Gwella canlyniadau i unigolion, dioddefwyr, a gwella diogelwch cymunedol.

Amddiffyn	- Lleihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau a gorddosau nad ydynt yn angheuol drwy weithio a chydweithio'n effeithiol â'n byrddau cynllunio ardal. - Mynd i'r afael â bregusrwydd a chamfanteisio trwy fforymau sefydledig.
------------------	--

Meithrin cydberthnasau ag asiantaethau partner, gan sicrhau ein bod yn defnyddio ystod o wybodaeth, arbenigedd a chudd-wybodaeth i fynd i'r afael yn llawn â'r materion cymhleth sy'n gysylltiedig â defnyddio sylweddau a niwed a throseddau cysylltiedig.

Dilyn trywydd	- Sicrhau y rheolir a datblygir cudd-wybodaeth yn gywir ac effeithiol o fewn yr heddlu. - Codi safonau ymchwilio i sicrhau bod mwy o droseddau yn cael eu dwyn o flaen eu gwell mewn modd amserol, lleihau dyddiau a galw cudd. - Cynyddu'r sgiliau a'r gallu i ymdrin ag ymchwiliadau cyffuriau drwy gryfhau Unedau Troseddau Trefnedig Difrifol yr uned reoli sylfaenol.
----------------------	--





Blaenoriaeth 3 - Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol ac erlid troseddwr yn ddi-baid.

Mae Strategaeth Diogelu Pobl Heddlu Dyfed-Powys 2025-2029 yn adeiladu ar gynlluniau cyflawni strategol ein heddlu, y Strategaeth Fregusrwydd Genedlaethol, strategaethau Llywodraeth Cymru a'r llinynnau allweddol sy'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd, gan ganolbwyntio ar sut rydym am geisio diogelu pobl yn ein cymunedau.

Wrth wneud hynny byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr troseddau, yn enwedig y rhai yr effeithir arnynt gan drais difrifol, cam-drin domestig, a thrais rhywiol, yn cael cymorth personol, tosturiol ac amserol.

Paratoi pob ymchwilydd achosion treisio a throseddau rhywiol difrifol trwy ddarparu'r hyfforddiant, y sgiliau a'r ddarpariaeth briodol o ran llesiant er mwyn cynnal ymchwiliadau cymhleth ac o ansawdd uchel ar ran y dioddefwyr.

Paratoi	- Sicrhau bod y swyddogion sy'n delio â dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol yn meddu ar y sgiliau a'r hyfforddiant priodol i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf drwy fonitro nifer yr arbenigwyr y gellir eu defnyddio a chydymffurfedd â matrices dyrannu troseddau rhywiol. - Sicrhau bod pob achos o dreisio yn cael ei adolygu gan swyddog o reng Ditectif Arolygydd cyn ceisio cyngor Gwasanaeth Eryl y Goron a chyn cwblhau'r achos, a bod rhesymeg gadarn yn cael ei chymhwyso. Bod pob dioddefwr yn cael yr wybodaeth briodol ar ddiwedd yr ymchwiliad gan gynnwys canlyniad a rhesymeg, a'i hawl i adolygiad. - Hyrwyddo arolygon llesiant staff annibynnol a monitro'r canlyniadau - Monitro llwyth achosion staff yn erbyn y galw a salwch i ganfod a oes unrhyw gydberthynas - Hyrwyddo ansawdd data er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu troseddoldeb treisio a throseddau rhywiol difrifol yn ein cymuned yn fanwl gywir
-----------------------	--



Atal treisio a throseddau rhywiol difrifol trwy gydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol i gynnal ymgyrchoedd atal; targedu ardaloedd sydd â risg uchel o dreisio a throseddau rhywiol difrifol a rheoli troseddwr yn effeithiol.

Atal

- Cael proffil problem treisio a throseddau rhywiol difrifol blynyddol i lywio strategaeth ymgysylltu/atal pwrpasol
- Cydweithio â phartneriaid gan gynnwys y trydydd sector a'r gymuned ar ymgyrchoedd atal gan sicrhau y rhennir digon o wybodaeth i nodi ardaloedd sydd â risg uchel o droseddau er mwyn datblygu strategaethau i leihau'r tebygolrwydd o droseddau yn y dyfodol.
- Monitro rheolaeth pobl a ddrwgdybir o droseddu dro ar ôl tro i sicrhau bod rheolaeth effeithiol yn y gymuned, boed hynny drwy ddefnyddio gorchmynion sifil, neu lwybrau rheoli troseddwr ffurfiol.
- Hyrwyddo gweithgareddau atal treisio a throseddau rhywiol difrifol megis ymgyrch VIGILANT gyda phartneriaid o'r timau plismona ac atal bro a'r uned reoli sylfaenol

Amddiffyn dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol drwy ddarparu ymateb plismona tosturiol, cyngor diogelu ar unwaith ac atgyfeiriad at asiantaethau cymorth priodol.

Amddiffyn

- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio gorchmynion sifil er mwyn amddiffyn dioddefwyr ac atal troseddwr
- Monitro cydymffurfedd ag asesiadau o anghenion dioddefwyr; cytundebau cyswllt dioddefwyr/tystion a Chod Ymarfer i Ddioddefwyr. Canolbwyntio'n benodol ar gynnig mesurau arbennig.
- Monitro'n barhaus nifer y ceisiadau a geir i ddatgelu troseddwr rhyw â phlant, amseroldeb a chanlyniad y datrysiad.
- Monitro nifer ac ansawdd atgyfeiriadau at gynghorydd annibynnol ar drais rhywiol - cadarnhau faint o atgyfeiriadau a gynigir/a wrthodir a pham
- Sicrhau bod cynlluniau rheoli risg dioddefwyr o ansawdd uchel ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar bob cam o'r ymchwiliad.
- Monitro nifer y dioddefwyr sy'n gwrthod cymorth ac yn tynnu'n ôl o'r system cyfiawnder troseddol a'r rhesymau pam er mwyn parhau i wella'n gwasanaeth.
- Casglu adborth gan ddioddefwyr, ei nodi a gweithredu arno er mwyn gwella ein gwasanaeth.



Erlid yn ddi-flino y rhai a ddrwgdybir o dreisio neu droseddau rhywiol difrifol trwy sicrhau tystiolaeth a chynnal ymchwiliadau hynod effeithiol sy'n arwain at ganlyniadau priodol i ddioddefwyr.

Dilyn trywydd

- Ceir proses sicrhau ansawdd i fonitro defnydd priodol o godau canlyniadau trosedd.
- Sicrhau ansawdd ymchwiliadau i achosion o dreisio a throseddau rhywiol difrifol i sicrhau bod pob ymchwiliad yn canolbwyntio ar y dioddefwr, yn canolbwyntio ar yr un a ddrwgdybir ac yn cael ei arwain gan gyd-destun.
- Sicrhau bod yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael ei ystyried ar gyfer pob ymchwiliad perthnasol ac y caiff y defnydd ohono ac ymateb Gwasanaeth Erlyn y Goron ei fonitro
- Ar y cyd â chydweithwyr o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Erlyn y Goron, bydd cydweithwyr achosion treisio a throseddau rhywiol difrifol yn monitro ac yn lleihau'r defnydd o gynlluniau gweithredu er mwyn hyrwyddo amseroldeb cyfiawnder troseddol
- Monitro nifer y cyhuddiadau a chyfraddau euogfarnau ar gyfer troseddau treisio a throseddau rhywiol difrifol.
- Defnyddio paneli craffu i adolygu achosion 'dim gweithredu pellach' a gweithredu ar unrhyw adborth ac argymhellion

